
# Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir

# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi




Shared Regulatory Services

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr / Bridgend County Borough Council

Cardiff / Caerdydd

Vale of Glamorgan / Bro Morgannwg

# Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir
# Polisi Cydymffurfio a Gorfodi

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad**

**2. Nodau'r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir**

**3. Beth yw diben y polisi?**

**4. Pryd mae'r polisi'n berthnasol?**

**5. Ein dull ni o ran cydymffurfio a gorfodi**

**6. Cynghori ar y rheolau**

**7. Gwirio cydymffurfiaeth**

**8. Ymateb i achosion o dorri'r rheolau**

8.1 Trosolwg

8.2 Cynnal ymchwiliadau

8.3 Cyfathrebu

8.4 Penderfyniadau ar gamau gorfodi

**9. Cywiriadau sifil a chamau gorfodi troseddol sydd ar gael**

**10. Adolygu'r polisi hwn**

**11. Sylwadau a chwynion**

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn gweinyddu swyddogaethau Trwyddedu, Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg. Mae’r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid, iechyd a diogelwch, masnachu teg, rheoli llygredd, a phwysau a mesuriadau. Mae ganddo hefyd gyfrifoldeb trwyddedu am amrywiaeth o faterion gan gynnwys alcohol, gamblo a thacsis.

1.2 Mae’r GRhR yn ymrwymedig i arfer gorfodi da ac mae’r gwaith o ddatblygu’r polisi hwn yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth, y canllaw a’r codau presennol sy’n berthnasol yn y cyd-destun hwn, ac yn benodol Cod y Rheoleiddwyr.

1.3 Mae’r polisi’n nodi dull y GRhR tuag at weithgareddau gorfodi a chydymffurfio, a’i fwriad yw sefydlu dull cyson tuag at orfodi ar draws ei swyddogaethau amrywiol, heb roi gormod o faich ar fusnesau lleol, sefydliadau a’r cyhoedd. Mae’r polisi wedi bod yn destun ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Fodd bynnag, caiff rhagor o adborth wastad ei groesawu gan ddefnyddio’r manylion cyswllt a nodir isod. Byddwn yn ystyried cynnwys unrhyw welliannau a awgrymir mewn adolygiadau yn y dyfodol.

1.4 Wrth fabwysiadu’r polisi hwn, bwriada’r GRhR gymhwyso pwerau cyfreithiol yn gyson ac yn deg, beth bynnag fo’r amgylchiadau. Ni chaiff penderfyniadau eu dylanwadu gan ryw, anabledd, iaith, ethnigrwydd, crefydd, credoau gwleidyddol na chyfeiriadedd rhywiol y gwrthrych, y dioddefwyr na’r tystion.

1.5 Mae’r GRhR eisiau ei gwneud hi’n rhwydd i chi dderbyn ein gwybodaeth. Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar ein gwefan https://www.srs.wales/cy/Home.aspx ac ar ffurf copi caled. Hefyd, gallwn ddarparu’r ddogfen hon mewn fformatau eraill gan gynnwys tâp sain, print bras ac mewn ieithoedd cymunedol. Gallwn ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu pan fo angen. Dylid cyfeirio ceisiadau am gopïau mewn fformatau eraill neu mewn ieithoedd eraill i:-

Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
Cyngor Bro Morgannwg
Y Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
CF63 4RU
E-bost: enquiries@srs.wales

# 2. Nodau'r GRhR

2.1 Dyma'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru:

- Amddiffyn unigolion rhag niwed a hyrwyddo gwella iechyd;
- Sicrhau bod y gadwyn fwyd yn ddiogel ac o ansawdd er mwyn lleihau'r perygl i bobl ac iechyd anifeiliaid;
- Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau; a
- Gwella'r amgylchedd lleol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd.

2.2 Mae'r GRhR yn mabwysiadu'r blaenoriaethau hyn wrth iddo geisio diogelu iechyd, diogelwch a lles economaidd y rhai hynny sy'n byw, gweithio neu'n ymweld â'r rhanbarth; a hynny wrth gynnal marchnad deg a chystadleuol lle y gall busnesau cyfreithlon ffynnu.

2.3 Caiff cydymffurfiaeth â'r gyfraith ei hannog yn rhagweithiol ac i'r perwyl hwn dymunwn weithio gyda busnesau ac unigolion i hyrwyddo'r nod hwn drwy roi cyngor ac addysg, gwiriadau gwybodus yn ymwneud â chydymffurfio ac ymatebion cymesur i achosion o dorri rheolau. Ein pwrpas yn y pen draw yw sicrhau bod y "farchnad" yn gweithredu'n effeithiol a bod risgiau i iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd yn cael eu hymdrin. Pan fo'r pwrpas hwnnw'n cael ei danseilio, byddwn yn defnyddio ein pwerau cyfreithiol i weithredu er mwyn datrys unrhyw sefyllfaoedd anfoddhaol a sicrhau bod unrhyw ddrwgweithredwyr yn cael eu dal i gyfrif. Dyma'r hyn a olygir gan y term camau gorfodi.

2.4 Rydym yn ymrwymedig i gymryd camau gweithredu cadarn a phriodol yn y sefyllfaoedd canlynol:-

- Yn erbyn y rhai hynny sy'n herio'r gyfraith, neu sy'n fwriadol neu'n gyson yn methu â chydymffurfio
- Pan fo risg difrifol neu uniongyrchol i iechyd a diogelwch, a
- Phan fo angen amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau

2.5 Mae'r GRhR yn cyhoeddi cynllun darparu gwasanaeth blynyddol sy'n nodi ein targedau perfformiad a'n prif feysydd gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod a sut mae'r rhain yn cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol y Cynghorau sy'n cymryd rhan.

# 3. Beth yw diben y polisi?

3.1 Diben y ddogfen hon yw nodi polisi'r GRhR o ran ei weithgareddau gorfodi a chydymffurfio, a rhoi canllaw i'r rhai hynny yr effeithir arnynt ganddo, yn benodol busnesau, defnyddwyr a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'n effeithio ar y disgresiwn i gymryd camau cyfreithiol pan ystyrir bod hyn er budd y cyhoedd.

3.2 Bydd staff y GRhR yn glynu wrth y polisi hwn, a bydd hyn yn destun monitro rheolaidd yn rhan o'r broses adolygu a nodir yn adran 10 isod.

# 4. Pryd mae'r polisi'n berthnasol?

4.1 Mae'r polisi hwn yn ymdrin yn fras â'r meysydd canlynol:

- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Diogelwch Bwyd
- Safonau Bwyd
- Iechyd a Diogelwch
- Masnach Deg
- Trwyddedu
- Diogelwch Cynhyrchion
- Rheoli Llygredd
- Diogelwch Tai
- Iechyd Porthladd
- Clefydau Trosglwyddadwy
- Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru

4.2 Dan rai amgylchiadau, rydym wedi datblygu nifer o bolisïau gorfodi penodol sydd hefyd yn bodoli i roi gwybodaeth fanwl am sut a phryd bydd y meysydd hynny'n cynnal math penodol o orfodi. Sef:-

**Atodiad 1** – Atodiad Gorfodi Diogelwch Bwyd

**Atodiad 2** – Atodiad Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

**Atodiad 3** – Atodiad Gorfodi Iechyd a Diogelwch Bwyd

Pe bai unrhyw wrthdaro erioed yn codi rhwng y polisi hwn a'r dogfennu hynny sy'n nodi meysydd penodol, yna bydd y Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol hwn yn cael blaenoriaeth.

# 5. Ein dull ni o ran cydymffurfio a gorfodi

5.1 Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o ddyrannu adnoddau ac ymdrech yn cael ei dargedu lle y byddent yn fwyaf effeithiol drwy asesu'r risgiau yn erbyn ein canlyniadau rheoliadol. Bydd asesiadau risg o'r fath yn llywio ein dull tuag at weithgarwch rheoleiddiol gan gynnwys casglu data, rhaglenni archwilio, cyngor busnes a sancsiynau gorfodi. Yn rhan o'r asesiad risg hwn, byddwn yn ystyried yr effaith gyfunedig o'r achosion posib o beidio â chydymffurfio ar ganlyniadau rheoleiddiol a'r tebygolrwydd o'r diffyg cydymffurfio hwnnw'n digwydd.

5.2 Mae Deddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, fel y'i diwygiwyd, yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r GRhR roi ystyriaeth i Egwyddorion Rheoleiddio Da wrth ddarparu gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu.

Byddwn yn arfer ein gweithgareddau rheoleiddiol mewn ffordd sy'n:

- ***Gymesur*** – bydd ein gweithgareddau'n adlewyrchu lefel y risg i'r cyhoedd a bydd y camau gorfodi a gymerir yn ymwneud â difrifoldeb y drosedd
- ***Atebol*** – bydd ein gweithgareddau'n agored i graffu cyhoeddus, gyda pholisïau clir a hygyrch, a gweithdrefnau cwyno teg ac effeithlon
- ***Cyson*** – bydd ein dull gweithredu o ran y rhai hynny rydym yn eu rheoleiddio yn gadarn ac yn ddibynadwy a byddwn yn parchu cyngor a roddir gan eraill. Lle bo amgylchiadau'n debyg, byddwn yn ymdrechu i ddefnyddio dull gweithredu tebyg i awdurdodau lleol eraill i gydymffurfio â'r gyfraith.
- ***Tryloyw*** – byddwn yn sicrhau bod y rhai hynny a reoleiddiwn yn gallu deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn gyfnewid, a
- ***Wedi'u targedu*** – byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau ar weithgareddau a mentrau risg uwch, gan adlewyrchu angen lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

5.3 Mae'r GRhR yn ymgorffori egwyddorion gorfodi da a sefydlwyd yng ***Nghod y Rheoleiddwyr*** (Ebrill 2014), fel y'i diwygiwyd, h.y.,

- Dylai rheoleiddwyr gynnal eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cefnogi'r rhai hynny maent yn eu rheoleiddio i gydymffurfio a datblygu;
- Dylai rheoleiddwyr ddarparu ffyrdd uniongyrchol i ymgysylltu â'r rhai hynny maent yn eu rheoleiddio a gwrando ar eu barn;
- Dylai rheoleiddwyr seilio eu gweithgareddau rheoleiddiol ar risg;
- Dylai rheoleiddwyr rannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth a risg;
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod gwybodaeth, canllawiau a chyngor clir ar gael i helpu'r rhai hynny maent yn eu rheoleiddio i fodloni eu cyfrifoldebau i gydymffurfio
- Dylai rheoleiddwyr sicrhau bod eu dull nhw tuag at weithgareddau rheoleiddiol yn dryloyw

Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai y byddwn yn dod i'r casgliad naill ai fod darpariaeth yng Nghod y Rheoleiddwyr ddim yn berthnasol neu fod darpariaeth arall yn bwysicach. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw benderfyniad i wyro oddi wrth y Cod yn cael ei resymu'n iawn, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Bydd y penderfyniad a'r rhesymau dros hyn yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig.

5.4 Mae'r GRhR yn ymrwymedig ym mhob agwedd ar ei waith i hyrwyddo cydraddoldeb yn unol â datganiadau a pholisïau Cydraddoldeb yr awdurdodau sy'n cymryd rhan. Bydd y Gwasanaeth yn ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth geisio sicrhau'r ymrwymiad hwnnw, gan gynnwys mewn cysylltiad â rhoi cymorth, gwybodaeth a chyngor. Bydd y polisi hwn yn cyfrannu at degwch penderfyniadau a bydd yn ceisio sicrhau na fydd penderfyniadau'n cael eu dylanwadu gan darddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, anabledd, oedran, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd y pwnc, diffynnydd, dioddefwr neu dyst. Wrth fonitro ac adolygu ein harferion dan y polisi hwn, byddwn yn sicrhau bod ein gweithgarwch gorfodi'n adlewyrchu'r ymrwymiad hwn.

5.5 Mewn rhai meysydd o'n gwaith, mae gennym rôl orfodi a rennir gydag asiantaethau eraill, er enghraifft yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Heddlu. Weithiau bydd yn fwy priodol i asiantaethau gorfodi eraill neu awdurdodau lleol eraill ymdrin ag achosion penodol o dorri deddfwriaeth, felly efallai bydd swyddogion yn trosglwyddo manylion am drwyddedau i asiantaethau eraill o'r fath. Dan amgylchiadau lle y mae rôl a rennir neu rôl gyflenwol yn bodoli, byddwn dal yn glynu wrth y Polisi Cydymffurfio a Gorfodi hwn, ond bydd asiantaethau eraill yn cadw'r hawl i gymryd pa bynnag gamau yr ystyriant yn angenrheidiol.

5.6 Pan fyddwn yn cyfnewid gwybodaeth am weithgareddau gorfodi â'n hasiantaethau partner, byddwn yn gwneud hynny yn unol ag unrhyw ddulliau sefydledig o rannu gwybodaeth a gofynion cyfreithiol, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

5.7 Byddwn yn cydweithio'n agos â gwasanaethau eraill o fewn y cynghorau, a'r rheoleiddwyr allanol priodol i sicrhau ein bod ninnau'n cydymffurfio er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth reoleiddiol ym mhob maes perthnasol, er enghraifft cyfraith bwyd, a masnachu teg. Er enghraifft, pe dylai tor cyfraith gael ei nodi mewn achos difrifol o dorri rheolau diogelwch bwyd mewn sefydliadu a reolir gan awdurdod lleol, bydd y Prif Weithredwr yn cael ei hysbysu ar unwaith.

# 6. Cynghori ar y rheolau

6.2 Rhoddir cyngor yn rhagweithiol i fusnesau a hefyd mewn ymateb i ofynion penodol am arweiniad. Bydd cyngor o'r fath yn cael ei roi yn glir ac mewn iaith syml a bydd yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig ar gais. Bydd gofynion cyfreithiol yn cael eu gwahaniaethu'n glir oddi wrth arfer gorau, codau ymarfer, canllawiau a chyngor arall.

6.2 Bydd swyddogion yn cael eu hannog i hyrwyddo cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, drwy godi ymwybyddiaeth o safonau perthnasol a gofynion cyfreithiol, drwy gyfrwng datganiadau

i'r wasg, dosbarthu taflenni, cyswllt wyneb yn wyneb a thrwy bartneriaethau busnes a chymunedol.

6.3 Wrth gynnig cyngor i fusnesau, bydd y GRhR yn gweithredu'n brydlon; fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i'r busnesau hynny y mae ganddo gytundeb Awdurdod Sylfaenol â nhw pan fo gofynion trwm ar adnoddau staff cyfyngedig. Perchir trefniadau Awdurdod Sylfaenol awdurdodau lleol eraill.

6.4 Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi 'rheolau aur' y Llywodraeth fel canllaw ar reoleiddio a nodir yn y Cod Ymarfer ar Reoliadau Canllaw http://www.fwr.org/WQreg/Appendices/CoP_on_Guidance_on_Regulation.pdf (BIS, 2009), yn yr ystyr y dylai fod:

- Yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o ddefnyddwyr
- Wedi'i gynllunio gyda mewnbwn gan ddefnyddwyr a'u cynrychiolwyr
- Wedi'i drefnu yn ôl ffordd o weithio'r defnyddiwr
- Yn hawdd i'r defnyddwyr bwriadedig ei ddeall
- Wedi'i gynllunio i roi hyder i ddefnyddwyr o ran sut i gydymffurfio â'r gyfraith (h.y., peidio â defnyddio ymwadiadau cyfreithiol o atebolrwydd)
- Wedi'i gyflwyno mewn da bryd
- Yn hawdd cael mynediad iddo
- Wedi'i adolygu a'i wella

6.5 Gall busnesau sy'n gofyn i'r Gwasanaeth am gyngor ar unrhyw achos o beidio â chydymffurfio wneud hynny yn bennaf heb ofni sbarduno camau gorfodi yn awtomatig. Serch hynny, bydd achlysuron dan yr amgylchiadau a amlinellir yn 2.4 uchod, neu pan fo hanes o beidio â chydymffurfio lle y mae camau gweithredu yn anochel ar ôl ystyriaeth briodol.

# 7. Gwirio cydymffurfiaeth

7.1 Mae'r GRhR yn mabwysiadu dull seiliedig ar wybodaeth i sicrhau y targedir ei adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib. Mae hefyd yn defnyddio nifer o fframweithiau asesu risg ar draws ei feysydd gwaith i bennu amlder gwiriadau cydymffurfiaeth sy'n cynnwys arolygu a chynnal ymweliadau eraill â safleoedd busnes, cymryd samplau, cynnal pryniannau prawf ac yn y blaen.

7.2 Bydd cwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth ynghylch achosion honedig o beidio â chydymffurfio yn cael eu hasesu fesul achos unigol a chânt eu dyrannu i swyddog priodol i'w harchwilio / cyflwyno camau gorfodi yn ôl yr angen.

7.3 Ar ôl mynd i'r afael â materion o beidio â chydymffurfio drwy roi cyngor, bydd y Gwasanaeth yn dilyn yr achosion i fyny i sicrhau bod meysydd pryder wedi'u cywiro a bod y busnes yn cydymffurfio'n llwyr. Lle bo gwaith adferol wedi'i fynnu, rhoddir esboniad yn nodi pam mae ei angen, ac erbyn pryd y bydd rhaid ei gwblhau.

# 8. Ymateb i Achosion o Dorri'r Rheolau

## 8.1 Trosolwg

8.1.1 Wrth ymateb i achosion o dorri'r gyfraith, mae amrywiaeth o gamau gweithredu ar gael i'r Gwasanaeth, a nodir y rhain yn 8.4 isod. Bydd y camau gorfodi priodol yn cael eu pennu yn dilyn ystyriaeth ofalus o ffeithiau penodol bob achos unigol, ac ar ôl ystyried dull y troseddwr ac unrhyw sylwadau y dymuna gael eu hystyried.

8.1.2 Bydd y GRhR fel arfer yn cymryd dull cam wrth gam o fewn yr hierarchaeth o gamau gorfodi, a bydd yn symud i gymryd camau ffurfiol pan fo dulliau anffurfiol wedi methu â chyflawni'r effaith a ddymunir. Sylwer, fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn 2.4 uchod, y bydd amgylchiadau sy'n gwarantu camau ffurfiol priodol o'r cychwyn cyntaf.

8.1.3 Gallai fod amgylchiadau lle yr amheuir bod troseddwr wedi cyflawni troseddau mewn nifer o ardaloedd awdurdod lleol. Gallai fod yn fwy priodol i awdurdod lleol arall y tu allan i'r Gwasanaeth a Rennir gymryd camau gorfodi hyd yn oed pan fo trosedd wedi'i chyflawni ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Dinas Caerdydd neu ardal Cyngor Bro Morgannwg. Ar y llaw arall, efallai y bydd achlysuron lle y byddai'n fwy priodol i'r Gwasanaeth, (drwy un o'r Cynghorau sy'n cymryd rhan) gymryd camau gorfodi o ran troseddau a ddigwyddodd yn rhywle arall. Dan amgylchiadau o'r fath, efallai y byddwn yn ymrwymo i gytundeb cyfreithiol fel bod un awdurdod yn cymryd y rôl arweiniol, fel y bo'n briodol, gan ddefnyddio darpariaethau adran 19 Deddf Llywodraeth Leol 2000, adran 222 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw ddarpariaethau galluogi eraill.

## 8.2 Cynnal Ymchwiliadau

8.2.1 Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gynnal gan roi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth ganlynol ac unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer cysylltiedig, i'r graddau maent yn ymwneud â'r GRhR

- Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996
- Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974

Mae'r Deddfau a'r canllawiau cysylltiedig hyn yn rheoli sut y caiff tystiolaeth ei chasglu a'i defnyddio ac maent yn cynnig amrywiaeth o fesurau diogelu i ddinasyddion a phobl a ddrwgdybir.

8.2.2 Mae ein gweithdrefnau ar gyfer cyfweld â phobl a ddrwgdybir yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, fel y'i diwygiwyd, a'r Codau Ymarfer cysylltiedig perthnasol.

8.2.3 Caiff pwerau gorfodi eu darparu gan y ddeddfwriaeth sy'n rhoi awdurdod i'n swyddogion, a bydd staff yn defnyddio'r pwerau hyn lle bo angen, ond bob amser mewn modd cymesur. Bydd swyddogion yn rhesymol ddisgwyl cydweithredu wrth ymchwilio i achosion honedig o dorri'r gyfraith a gall fod yn drosedd i atal swyddog awdurdodedig rhag cyflawni ei ddyletswyddau.

8.2.4 Pan fo swyddogion yn arfer eu pwerau atafaelu, rhoddir gwybod i'r person yr atafaelir unrhyw nwyddau neu ddogfennau ganddo (neu ei gynrychiolydd) o'r ffaith hwnnw a rhoddir derbynneb iddo. Caiff eitemau a atafaelir eu storio'n ddiogel ac yn unol â gweithdrefnau a ddogfennir.

8.2.5 Fel arfer, nid yw troseddwyr yn ddarostyngedig i'r posibilrwydd o gael eu harestio dan y gyfraith a orfodir gan y GRhR, fodd bynnag mae rhai eithriadau. Mae'r rhain yn cynnwys troseddau dan Ddeddf Nodau Masnach 1994, a chyfraith arall, sy'n ddarostyngedig i brawf anghenraid adran 24 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, er enghraifft pan fyddai cyflwyno achos yn cael ei amharu gan ddiflaniad y person a ddrwgdybir.

8.2.6 Bydd pob ymchwiliad yn cael ei gwblhau mewn modd amserol gan roi ystyriaeth i unrhyw gyfyngiadau amser ynghlwm wrth gyflwyno camau ffurfiol a ragnodir gan ddarnau penodol o ddeddfwriaeth.

8.2.7 Lle y mae gan y Cyngor fudd mewn safle, bydd yn cynnal ei ddyletswyddau gorfodi yn yr un ffordd yn union ag y byddai'n gwneud mewn safleoedd eraill lle nad oes ganddo fudd. At hynny, bydd yn sicrhau bod y sylw a dderbynnir yn unol â'r meini prawf a gymhwysir ar ddeiliaid dyletswydd eraill.

## 8.3 Cyfathrebu

8.3.1 Bydd ein staff bob amser yn cyfathrebu ag unrhyw Awdurdod Sylfaenol neu Awdurdod Cartref ar y cyfle cyntaf posibl mewn ymchwiliad.

8.3.2 Bydd y rhai sy'n destun camau gorfodi (gan gynnwys pobl a ddrwgdybir a diffynyddion) yn cael eu diweddaru ynghylch cynnydd yr ymchwiliadau. Caiff hyn ei wneud mewn modd sy'n glir, priodol ac amserol.

8.3.3 Wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch i ba gyfeiriad y caiff ymchwiliad ei gloi, bydd y rhai sy'n destun i'r ymchwiliad yn cael cadarnhad ysgrifenedig mewn perthynas â'r camau gweithredu. Rhoddir y cadarnhad cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ynghyd â gwybodaeth am yr hawl i wneud sylwadau ac apelio.

8.3.4 O ran y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan ddiffyg cydymffurfiaeth eraill o dan gyfraith diogelu'r cyhoedd, mae'r GRhR yn cofleidio egwyddorion perthnasol Cod Dioddefwyr 2020 - Cod Dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020 (publishing.service.gov.uk). Y rhain yw:

- Y gallu i ddeall a chael eich deall
- I gael manylion y drosedd wedi'u cofnodi heb oedi na ellir ei gyfiawnhau
- I gael gwybodaeth wrth adrodd am y drosedd
- I gael atgyfeiriad, lle bo hynny'n briodol, at wasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr ac sydd â gwasanaethau a chymorth wedi'u teilwra i'ch anghenion.
- I gael gwybodaeth am iawndal, lle eich bod yn gymwys, y gellid ei gael am unrhyw golled, difrod neu anaf a achoswyd o ganlyniad i drosedd.
- I gael gwybodaeth am yr ymchwiliad ac unrhyw erlyniad.
- I wneud Datganiad Personol Dioddefwr.
- I gael gwybodaeth am yr achos, proses yr achos a'ch rôl fel tyst.
- I gael gwybodaeth am ganlyniad yr achos ac unrhyw apeliadau.
- I gael tâl am dreuliau os oes angen mynd i'r llys i roi tystiolaeth, ac i gael unrhyw eiddo a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth yn ôl.
- I gael gwybodaeth am y troseddwr yn dilyn euogfarn.
- I wneud cwyn os ydynt yn teimlo nad yw eu Hawliau yn cael eu bodloni – g*weler hefyd adran 11 o'r Polisi hwn.*

8.3.5 Bydd y GRhR yn cyhoeddi canlyniadau ei achosion erlyn ar ei wefan. Gellir dwyn canlyniadau o'r fath i sylw partïon â diddordeb hefyd.

## 8.4 Penderfyniadau ar Gamau Gorfodi

8.4.1 Mae ystod o ganlyniadau gorfodi ar gael i'r Gwasanaeth, fel y manylir yn sesiwn 9 isod. Nodir opsiynau ychwanegol yn Atodiad 1, 2 a 3 y polisi hwn mewn perthynas â gorfodi cyfraith bwyd, gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid ac iechyd a diogelwch, yn y drefn honno. Caiff camau gweithredu priodol eu pennu ar ôl ystyried amgylchiadau pob achos unigol yn fanwl.

8.4.2 Byddwn yn defnyddio cyngor a chymorth cydymffurfedd fel ymateb cyntaf os nodir sawl achos o dorcyfraith. Rhoddir cyngor, ar ffurf llythyr o rybudd ar adegau, i helpu unigolion a busnesau i unioni digwyddiadau o dorcyfraith cyn gynted ac mor effeithlon ag y bo modd, gan osgoi'r angen am gamau gorfodi pellach. Bydd llythyr o rybudd yn nodi'r hyn y dylid ei wneud i unioni'r digwyddiad o dorcyfraith ac i'w atal rhag digwydd eto. Os nodir achos tebyg o dorcyfraith yn y dyfodol, bydd y llythyr hwn yn cael ei ystyried o ran pennu'r camau gorfodi mwyaf priodol i'w cymryd ar yr achlysur hwnnw.

8.3.3 Pan fo busnes wedi arwyddo contract Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol, rydym yn cydnabod y gall yr Awdurdod Sylfaenol roi cyngor a chymorth cydymffurfedd, a bydd yn

rhoi ystyriaeth i gyngor o'r fath wrth bennu'r camau gorfodi mwyaf priodol i'w cymryd. Mae'n bosibl y byddwn yn trafod unrhyw angen am gyngor a chymorth cydymffurfedd â'r Awdurdod Sylfaenol.

# 9. Y cywiriadau sifil a'r camau gorfodi troseddol sydd ar gael

Mae nifer o gywiriadau sifil a chamau gorfodi cyfreithiol ar gael i'r Gwasanaeth:

## 9.1 Ymgymeriadau Gwirfoddol

Mae'n bosibl y gallwn dderbyn ymgymeriadau gwirfoddol y bydd yr achosion o dorcyfraith yn cael eu hunioni a/neu na fyddant yn digwydd eto. Bydd y Gwasanaeth yn cymryd unrhyw fethiant i barchu'r ymgymeriadau gwirfoddol yn ddifrifol iawn ac yn debygol o arwain at gamau gorfodi.

## 9.2 Gweithredoedd Gwaharddol

Mewn rhai amgylchiadau, gallai'r Gwasanaeth geisio gwaharddeb neu orchymyn gan y llys er mwyn unioni'r achos o dorcyfraith a nodwyd a/neu ei atal rhag digwydd eto, neu gall reoli neu wahardd gweithgaredd penodol yn y dyfodol. Gall y llys orchymyn i'r gweithgareddau penodol gael eu hatal dros dro hefyd nes bod yr achos o dorcyfraith yn cael ei unioni a/neu fod camau diogelu yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal torcyfraith yn y dyfodol.

Mae methu â chydymffurfio â chamau gwaharddol yn cael ei ystyried yn drosedd dirmyg llys, a allai arwain at gyfnod yn y carchar.

## 9.3 Sancsiynau Sifil

Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008 yn galluogi'r llywodraeth i roi pŵer i awdurdodau lleol i orfodi cosbau sifil newydd amrywiol. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:-

- Cyflwyno hysbysiad cosb ariannol benodedig
- Cyflwyno hysbysiad cosb ariannol amrywiol
- Cyflwyno hysbysiad cydymffurfedd
- Cyflwyno hysbysiad adfer
- Cyflwyno hysbysiad stop
- Caniatáu i fusnes wneud ymgymeriad gorfodi

Mewn perthynas â deddfwriaethau penodol, mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd y pŵer i orfodi'r canlynol:

### 9.3.1 *Cosbau Ariannol Sefydlog*

Gall y Gwasanaeth osod Cosbau Ariannol Penodedig. Cânt eu capio ar lefel eithaf isel ac ni fwriedir eu defnyddio ar gyfer achosion mwy difrifol o ddiffyg cydymffurfio. Nid yw Cosbau Ariannol Penodedig yn ddirwyon troseddol ac nid ydynt yn ymddangos ar gofnod troseddol unigolyn. Ni ellir cyflwyno Cosbau Ariannol Penodedig ar y cyd ag unrhyw gosb arall.

### 9.3.2 *Gofynion Dewisol*

Mae gan y Gwasanaeth bwerau dan ddeddfwriaethau penodol i osod Cosbau Ariannol Amrywiol a Gofynion Anariannol yn ôl Disgresiwn. Gellir gosod Cosbau Ariannol Amrywiol hyd at lefel a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Gofynion Anariannol yn ôl Disgresiwn yn ofynion i gymryd camau i sicrhau nad yw'r achos o dorcyfraith yn parhau neu'n digwydd eto. Pan fo'r Gwasanaeth yn dewis gosod Gofynion Anariannol yn ôl Disgresiwn, bydd yn nodi'n glir beth y dylai'r camau hynny fod a'r cyfnod a roddir i'w cyflawni. Bydd methu â chydymffurfio â'r gofynion yn debygol o arwain at gosb ariannol.

Gellir defnyddio Cosbau Ariannol Amrywiol a Gofynion Anariannol yn ôl Disgresiwn ar y cyd.

Petai'r Gwasanaeth yn cael mwy o ddewis o gosbau gan y Llywodraeth, byddwn yn eu defnyddio yn unol â'r gofynion deddfwriaethol, yn rhoi arweiniad ynghylch sut y byddwn yn defnyddio'r cosbau hyn ac yn gwneud manylion unrhyw achos y defnyddir y cosbau hyn yn gyhoeddus.

## 9.4. Camau Gorfodi Troseddol

### 9.4.1 Hysbysiadau Statudol

Mewn achos o sawl digwyddiad o dorcyfraith, mae gan y Gwasanaeth bwerau i gyflwyno hysbysiadau statudol. Mae'r rhain yn cynnwys: 'Hysbysiadau Stop', 'Hysbysiadau Gwahardd', 'Hysbysiadau Gwahardd Brys' a 'Hysbysiadau Gwella'. Mae hysbysiadau o'r fath yn rhwymol yn gyfreithiol. Gall methu â chydymffurfio â hysbysiad statudol fod yn drosedd a gall arwain at erlyniad a/neu, lle bo'n berthnasol, ymgymryd â gwaith heb ei orffen (gweler 9.5.1 isod).

Bydd hysbysiad statudol yn nodi'n glir y camau gweithredu y bydd rhaid eu cymryd, ynghyd â'r cyfnod a roddir i'w cyflawni. Mae'n debygol y bydd gofyn unioni unrhyw achos o dorcyfraith a/neu ei atal rhag digwydd eto. Gall wahardd gweithgareddau penodol hefyd nes bod yr achos o dorcyfraith yn cael ei unioni a/neu fod camau diogelu yn cael eu rhoi

ar waith er mwyn atal torcyfraith yn y dyfodol. Bydd eglurhad o'r broses apelio yn cael ei roi i'r unigolyn mewn achos o hysbysiad statudol.

Gall rhai hysbysiadau sy'n cael eu cyflwyno mewn perthynas â safle gael eu gosod ar y safle a/neu eu cofrestru fel pridiannau tir lleol.

### 9.4.2 Hysbysiadau cosb benodedig a hysbysiadau cosb am anrhefn

Ar gyfer rhai digwyddiadau penodol o dorcyfraith, mae gan y Gwasanaeth bwerau i gyflwyno *hysbysiadau cosb benodedig*. Lle maent ar gael, mae'r hysbysiadau hyn yn rhoi cyfle i'r troseddwr osgoi erlyniad drwy dalu'r swm penodedig i gydnabod y drosedd.

Gall *hysbysiad cosb am anrhefn* (HCA) fod yn opsiwn datrys yn achos gwerthu alcohol dan oed, ac mewn achosion o'r fath bydd y GRhR yn rhoi sylw dyledus i'r canllaw perthnasol, canllaw Hysbysiadau Cosb am Anhrefn (HCAau) (publishing.service.gov.uk) pan mae eu defnydd yn cael ei ystyried. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch cyhoeddi HCA, bydd unrhyw ymadawiad o'r canllawiau yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n ysgrifenedig.

Dim ond pan fydd y dystiolaeth wedi bod yn ddigonol i gefnogi erlyniad y cynigir hysbysiad cosb benodedig a hysbysiad cosb am anhrefn. Nid yw talu'r gosb yn rhoi imiwnedd i unigolyn rhag cael ei erlyn mewn perthynas ag achosion tebyg neu achosion sy'n digwydd eto. Mewn rhai amgylchiadau, yn arbennig lle mae'r digwyddiadau o dorcyfraith yn ddifrifol neu'n barhaus, gallai erlyniad fod yn fwy priodol na chyflwyno hysbysiad cosb benodedig neu hysbysiad cosb am anrhefn.

### 9.4.3 Gorchmynion Gorfodi

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Gwasanaeth geisio gorchymyn gan y Llys. Mae methu â chydymffurfio â gorchymyn llys yn cael ei ystyried yn ddirmyg llys, a allai arwain at gyfnod yn y carchar.

Mae gofyn i'r Gwasanaeth geisio gorchmynion gorfodi ar ôl cyflwyno rhai hysbysiadau gorfodi, gan roi cyfle i'r llys gadarnhau'r cyfyngiadau y mae'r hysbysiad yn eu rhoi. Fel arall, bydd gorchymyn llys ond yn cael ei geisio yn gyffredinol pan fydd pryderon difrifol ynghylch cydymffurfedd ag ymgymeriadau gwirfoddol neu hysbysiad.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Gwasanaeth ofyn i'r Llys am orchmynion fforffediad mewn perthynas â nwyddau neu eitemau a feddiannwyd gyda'r nod o'u dinistrio/atafaelu.

### 9.4.4 Rhybuddiad Syml

Mae rhybuddiad syml (a alwyd ynghynt yn rhybuddiad ffurfiol) yn ddewis arall yn lle erlyniad, lle mae'r amgylchiadau yn golygu bod y rhybudd yn debygol o fod yn effeithiol a bod ei ddefnydd yn briodol i'r drosedd.

Dim ond mewn achosion lle mae'r troseddwr dros 18 oed y gellir rhoi rhybuddiad syml, a lle:

- Mae digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o erlyniad,
- Mae’r troseddwr yn cyfaddef ei fod yn euog, ac
- Yr ystyrir bod defnyddio rhybuddiad syml yn hytrach na chychwyn achos troseddol er budd y cyhoedd.

Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar unigolyn i dderbyn y cynnig o rybuddiad syml, ond bydd methu â derbyn rhybuddiad gan amlaf yn arwain at erlyniad ar gyfer y drosedd.

Lle bo’r drosedd a gyflawnwyd yn drosedd gofnodadwy, bydd rhybuddiad syml yn ymddangos ar gofnod troseddol y troseddwr. Mae rhybuddiad syml yn debygol o ddylanwadu ar sut y mae’r Gwasanaeth ac eraill yn ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad tebyg o dorcyfraith yn y dyfodol, a gellir ei ddyfynnu petai’n berthnasol i unrhyw achos yn y dyfodol. Os cyflwynir rhybuddiad syml i unigolyn (yn hytrach na chorfforaeth) gallai fod goblygiadau’n berthnasol os yw’r unigolyn hwnnw yn ymgeisio am fathau penodol o gyflogaeth ac, mewn amgylchiadau penodol, gallai gael ei ddatgelu fel rhan o wiriad cofnod troseddol.

Bydd rhybuddiadau syml yn cael eu defnyddio yn unol ag arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch rhybuddio troseddwyr sy’n oedolion, ar hyn o bryd - https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/416068/cautions-guidance-2015.pdf a chanllawiau perthnasol eraill.

### 9.4.5 Erlyniad

Gallai’r GRhR, drwy’r Cyngor cyfranogol perthnasol, erlyn achosion o fynd yn groes i ddeddfwriaeth, yn enwedig mewn perthynas â’r rhai sy’n herio’r gyfraith neu sy’n ymddwyn yn anghyfrifol, neu lle bo perygl uniongyrchol i iechyd a diogelwch. Pan fo gweithredoedd gorfodi eraill, megis ymgymeriadau gwirfoddol, hysbysiadau statudol neu rybuddiad wedi methu â sicrhau cydymffurfiaeth yn flaenorol, yna mae erlyniad yn fwy tebygol.

Fel yn achos yr opsiynau gorfodi blaenorol, bydd nifer o elfennau yn cael eu hystyried, gan gynnwys y canlynol:

- Difrifoldeb y drosedd
- Hanes blaenorol y troseddwr
- Unrhyw amddiffyniad statudol sydd ar gael
- Camau gweithredu a gymerwyd i osgoi digwyddiad o’r fath yn y dyfodol

- Unrhyw esboniad a gynigiwyd, ac os yw'r gyfraith yn caniatáu, amgylchiadau ac agwedd y troseddwr

- Pa gamau gweithredu fydd o fudd gorau i'r cyhoedd

- P'un a oes gobaith realistig o erlyniad

Penderfynir ai erlyniad yw'r cam gweithredu mwyaf priodol mewn achos penodol:

- Yn unol â'r Polisi hwn;

- Yn unol â'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron; ac

- Yn unol â gofynion statudol, gan gymryd i ystyriaeth yr holl godau ymarfer, ac heb unrhyw oedi diangen.

Yn y Cod canlynol ar gyfer Erlynwyr y Goron, bydd erlyniad ond yn cael ei gychwyn pan fydd y Gwasanaeth a'r Cyngor cyfranogol perthnasol yn fodlon bod **digon o dystiolaeth** i roi gobaith realistig o gollfarn yn erbyn y diffynnydd/diffynyddion. Yn ogystal, rhaid i'r Gwasanaeth / Cyngor fod yn fodlon y byddai erlyniad o fudd i'r cyhoedd, a hynny ar ôl ystyried holl ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol yr achos, ac wrth ystyried y meini prawf a sefydlwyd gan y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, y byddai erlyniad **er budd y cyhoedd**.

Ar ôl ystyried holl ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol pob achos yn unigol, bydd Pennaeth y GRhR yn argymell camau gweithredu i'r awdurdod lleol perthnasol.

- Mewn perthynas ag erlyniadau a ymgymerwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol, bydd y penderfyniad i gychwyn achos llys yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Cyfreithiol, Rheoleiddio ac Adnoddau Dynol

- Mewn perthynas ag erlyniadau a ymgymerwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd, bydd y penderfyniad i gychwyn achos llys yn cael ei wneud gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant.

- Mewn perthynas ag erlyniadau a ymgymerwyd gan Gyngor Bro Morgannwg, bydd y penderfyniad i gychwyn achos llys yn cael ei wneud gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mewn amgylchiadau penodol, gall Pennaeth y GRhR gychwyn achos cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r swyddogion a nodir uchod.

Bydd erlyniad llwyddiannus yn arwain at gofnod troseddol. Mae ystod o gosbau ar gael i'r llys, yn dibynnu ar y cyhuddiad, ac amgylchiadau penodol yr achos a'r troseddwr. Mae'r rhain yn cynnwys rhyddhad, dirwy, gorchymyn cymunedol neu gyfnod yn y carchar mewn

achosion difrifol. Gall y llys orchymyn i nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio gael eu fforffedu a'u gwaredu, a/neu atafaelu unrhyw elw sydd wedi'i ennill yn sgil yr achos o dorcyfraith. Gall erlyniad hefyd arwain at anghymwyso unigolion, mewn rhai amgylchiadau, rhag ymgymryd â'r rôl o gyfarwyddwr cwmni, a gall fod goblygiadau hefyd ar gyfer unigolion sy'n chwilio am fathau penodol o waith.

### 9.4.6 Atafaelu Asedau

Gall swyddogion wneud ceisiadau dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 am atafaelu asedau troseddwyr mewn achosion difrifol. Ei ddiben yw adfer y buddion ariannol y mae'r troseddwr wedi'u hennill yn sgil ei droseddau. Mae achosion ond yn digwydd ar ôl cael erlyniad troseddol, ond maent yn cael eu cynnal yn unol â safon profi sifil. Lle bo'n briodol, gellir ceisio gorchmynion iawndaliad gan y llys hefyd.

Mae'r GRhR yn defnyddio pwerau yn unol ag adrannau 294 i 298 Deddf Enillion Troseddau 2002 i gymryd, cadw a fforffedu arian parod. Os oes sail resymol dros gredu bod arian yn deillio o drosedd neu y bwriedir ei ddefnyddio mewn trosedd gall Ymchwilydd Ariannol Achrededig (AFI) ei atafaelu. Gall yr AFI gadw'r arian am gyfnod o 48 awr a/neu wneud cais am orchymyn a wnaed gan y Llys Ynadon i'r arian parod gael ei gadw am gyfnod o hyd at 2 flynedd. Tra bod arian parod yn cael ei gadw, gall AFI wneud cais i'r Llys Ynadon i fforffedu'r arian parod. Bydd person sy'n cael ei dramgwyddo gan gais i gadw a/neu fforffedu yn cael manylion ynghylch sut y gallant wrthsefyll y ceisiadau hyn yn y Llys Ynadon.

## 9.5 Cywiriadau a sancsiynau eraill

### 9.5.1 Gwaith heb ei gyflawni

Dan rannau penodol o ddeddfwriaeth, mae gan y Gwasanaeth bwerau i ymgymryd â gwaith heb ei gyflawni os yw unigolyn wedi methu â chyflawni gwaith roedd yn ofynnol iddo ei wneud. Mae'r pwerau gwaith heb ei gyflawni wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth ac yn cael eu defnyddio mewn perthynas â'r achos.

Yn y mwyafrif o amgylchiadau, rhoddir rhybudd i unigolyn am y bwriad o ymgymryd â'r gwaith heb ei gyflawni. Ar ôl cychwyn y gwaith, mae'n drosedd i'r unigolyn hwnnw rwystro'r Cyngor neu unrhyw un o'r contractwyr sydd wedi'u cyflogi i ymgymryd â'r gwaith. Bydd cost y gwaith yn cael ei hadfer yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### 9.5.2 Gwrthod, Atal Dros Dro neu Ddirymu Trwyddedau

Mae pwerau'n bodoli i adolygu, atal dros dro neu ddirymu ystod o drwyddedau. Mae rhai o'r pwerau hyn wedi'u dirprwyo i swyddogion sy'n gweithredu dan adran 113 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ond lle bo'r ddeddfwriaeth yn rhagnodi neu bod yr awdurdod

wedi cadw'r hawl dan ei gynllun dirprwyo, dim ond is-bwyllgor y Cyngor cyfranogol perthnasol all gymryd camau o'r fath. Mae gan ddeiliaid trwydded yr hawl i fynychu gwrandawiadau a chael gwybod am eu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad. Wrth ystyried ceisiadau trwyddedu yn y dyfodol, bydd y digwyddiadau blaenorol o dorcyfraith a chamau gorfodi blaenorol yn cael eu hystyried.

### 9.5.3 Cymryd meddiant o anifeiliaid ac anghymhwyso ceidwaid

Mewn achosion lle sefydlir bod anifeiliaid gwarchodedig yn dioddef neu'n debygol o ddioddef os na fydd eu hamgylchiadau'n newid, bydd swyddogion yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i gymryd yr anifeiliaid drwy eu hatafaelu. Gellir gwneud cais i'r llys i Gyngor Bro Morgannwg gael perchnogaeth o'r anifeiliaid, gan ganiatáu iddynt gael eu gwaredu drwy ailgartrefu a dulliau eraill sydd ar gael fel y bo'n briodol. Bydd y costau o ofalu am anifeiliaid y cymerir meddiant ohonynt bob amser yn cael eu ceisio.

Mewn achosion lle mae unigolion yn cael eu canfod yn euog o droseddau lles anifeiliaid, rhoddir ystyriaeth i geisio eu hanghymhwyso, drwy'r llys, rhag cadw anifeiliaid yn y dyfodol. Gall anghymwysiadau o'r fath fod am gyfnod cyfyngedig (misoedd neu flynyddoedd), ond yn achos troseddau difrifol neu barhaus iawn, gellir caniatáu gorchymyn anghymhwyso oes.

### 9.5.4 Gorchmynion Cau

Mewn achosion lle mae cynhyrchion anghyfreithlon yn cael eu cyflenwi, er enghraifft tybaco ffug neu nas talwyd treth arno, gellir cyflwyno hysbysiad cau o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014. Mae Hysbysiad o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r safle dan sylw aros ar gau am 48 awr cyn i'r mater gael ei ystyried gan y Llys Ynadon.

Yna, mae gan y Llys y pŵer i roi hysbysiad cau ar y safle am gyfnod o hyd at 3 mis, y gall y Llys ei ymestyn ar gais.

### 9.5.5 Gorchmynion Ymddygiad Troseddol

Gellir gofyn am Orchymyn Ymddygiad Troseddol gan y llys mewn amgylchiadau lle mae unigolyn a gafwyd yn euog o drosedd wedi ymgymryd ag ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, aflonyddwch, braw neu ofid, ac mae'r llys yn credu y bydd gwneud y gorchymyn yn helpu i atal y troseddwr rhag ymgymryd ag ymddygiad o'r fath.

# 10. Adolygu

10.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddaru a'i ddatblygu yn ôl yr angen yn sgil newidiadau yn y gyfraith a bydd yn cael ei adolygu bob dwy flynedd at ddibenion cywirdeb parhaus a chydymffurfiaeth staff, ac yna'n cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu priodol.

10.2 Bydd data ynghylch proffiliau cydraddoldeb y rhai y mae'r polisi hwn yn effeithio arnynt yn cael ei gasglu a'i fonitro am unrhyw arferion gwahaniaethol.

# 11. Sylwadau a Chwynion

11.1 Ymdrechwn i gynnig gwasanaeth o safon uchel. Fodd bynnag, mae gweithdrefn gwyno ffurfiol ar gael i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cwyn am y gwasanaeth er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â phryderon yn gyflym ac yn gyson. Gellir gwneud cwyn yn bersonol, yn ysgrifenedig, mewn e-bost neu drwy ddefnyddio'r ffurflen gwyno ar-lein – dolen.

11.2 Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y polisi hwn at y GRhR drwy'r cyfeiriad a roddir yng nghyflwyniad y polisi Cydymffurfio a Gorfodi. Os ystyrir nad yw'r gŵyn ynghylch y polisi hwn wedi'i datrys yn foddhaol, bydd yn cael ei throsglwyddo at Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yng Nghyngor Bro Morgannwg ac ymdrinnir â'r gwyn yn unol â'r weithdrefn gwyno ffurfiol a nodwyd uchod.

Fodd bynnag, ar adegau nid ymdrinnir â'ch pryder neu'ch cwyn drwy'r Polisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol, er enghraifft:

- apêl yn erbyn penderfyniad 'cwbl briodol' a wnaed gan y Cyngor
- ffordd o geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi 'cwbl briodol'
- penderfyniadau o ran a oes hawl ar wahân i apelio neu adolygu, e.e. drwy'r Llys Ynadon